

# ASTUDIAETH EFFAITH CYDRADDOLDEB

## Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd - Mwy na Llyfrau

### ADRAN UN - PRIF NOD AC AMCANION Y STRATEGAETH A'R ASESIAID

#### 1. Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell Cyhoeddus yng Ngwynedd

Mae darparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus 'cynhwysfawr ac effeithlon' yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964

#### 2. Nod cyffredinol y Strategaeth

Er mwyn sicrhau datblygiad y Gwasanaeth Llyfrgell i gwrdd â her yr oes ddigidol a darparu gwasanaeth cyfoes sy'n cwrdd â gofynion statudol fel eu diffinnir yn y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC) a baratoir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u dyletswyddau statudol o orchwyllo gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus.

#### 3. Y prif amcanion y Strategaeth

- Diffinio'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth llyfrgell gyfoes , gynaliadwy gan sicrhau darpariaeth deg
- Datblygu strategaeth llyfrgell i gynorthwyo'r gwasanaeth llyfrgell i gwrdd â'i ofynion statudol a'r Safonau Llyfrgell (SLICC), gan gynnwys:
  - Mynediad i fannau gwasanaeth llyfrgell a'u horiau agor
  - Adolygu lefelau staffio llyfrgelloedd a'r ystod o weithgareddau a gynigir
  - Amrywiaeth eang o adnoddau ffisegol a rhithiol sy'n briodol ar gyfer benthyca a defnydd cyfeiriol
  - Staff ar gael i gynorthwyo a chefnogi defnyddwyr ac i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr
  - Darparu canolfannau amlwrpas i'r gymuned eu defnyddio
  - Adeiladu partneriaethau ym meysydd gwasanaethau eraill, e.e. cyswllt a'r agenda lechyd a Lles a'r maes Cynhwysiad Digidol.
- Hefyd i gynnwys
  - darpariaeth Llyfrgelloedd Teithiol (adolygwyd yn 2011/12)
  - darpariaeth gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref (adolygwyd yn 2011/12)
  - darpariaeth Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol i Blant mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o amddifadedd (cytundeb diwygiedig gydag Adran Addysg, 2013 - i'w adnewyddu o Ebrill 2017 ymlaen / cytundeb ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, 2012 - i'w adolygu yn sgil y toriad i Uned Gwasanaeth 'Gwynedd Ni' a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, 2014 a'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015).

## Cefndir y Strategaeth

O 2002 mae Gwynedd wedi methu â chyflawni'r lefel staffio ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus fel yr amlinellir yn y Safonau Llyfrgelloedd (SLICC). Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys datganiadau o bryder ynghylch y lefel isel o staffio yn yr asesiadau blynyddol ysgrifenedig i'r awdurdod gan nodi mai Gwynedd oedd yr isaf neu ymysg yr isaf yng Nghymru. Mae hyn i'w briodoli yn bennaf i gyfyngiadau adnoddau parhaus ac nad yw datblygu llyfrgelloedd wedi bod yn flaenoriaeth gorfforaethol wrth gynllunio ymlaen.

Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei bwerau, o dan y Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964, i gymryd drosodd rheolaeth y gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus o'r awdurdod os yw'n gyson yn methu â darparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' fel y diffinnir hynny gan y Ddeddf ynghyd a'r canllawiau a gynigir gan y Safonau Llyfrgell.

Mae'r Strategaeth Llyfrgell, wrth geisio gwella effeithlonrwydd, yn cydnabod bod buddsoddiad pellach mewn staff yn annhebygol a'i bod yn bwysig sicrhau parhad darpariaeth ddigonol o adnoddau, cynnal safon adeiladau llyfrgell a chwilio am gyfleoedd i foderneiddio darpariaeth llyfrgell (ee trwy gydleoli â gwasanaethau eraill neu weithio mewn partneriaeth ar y cyd).

Y bwriad yw y bydd y Strategaeth Llyfrgell hon yn galluogi'r gwasanaeth i wynebu heriau'r newid i ddarpariaeth ddigidol gyda mynediad rhithiol at adnoddau ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ddarpariaeth drwy gyfrwng llyfrgell deithiol ac oriau agor estynedig posibl. Bydd hefyd yn cynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli a hwyluso eu defnydd gan y gymuned, gweithio mewn partneriaeth a chydweithio â gwasanaethau eraill y cyngor.

Cafodd cynnig Uwch-reolwyr y Cyngor i gadw tri neu chwe llyfrgell ar agor, gyda'r bwriad o drosglwyddo'r gweddill i reolaeth gymunedol neu eu cau, ei wrthod gan y Cyngor. Ystyriwyd yn arbennig effaith unrhyw ostyngiad yn y nifer o fannau gwasanaeth ar wahanol grwpiau o bobl yng Ngwynedd. Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, mae wedi cadarnhau na fyddai cynigion llym o'r fath yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr neu gymunedau, ac ni fyddai'n cwrdd ag anghenion y SLICC. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Adolygiad Llyfrgelloedd a'r gwaith ymgynghori wedi arwain at y cynigion yn y Strategaeth, gan ganolbwyntio ar 'gynigion craidd'. Mae'r ffocws ar gynnig digidol ond mae'n cynnwys cynnal darpariaeth y Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref ynghyd â Gwasanaeth Teithiol ar gyfer Plant a Theuluoedd. Mae opsiwn 'llyfrgell gymunedol' wedi cael ei gynnwys i gynnal presenoldeb yn yr ardaloedd hynny lle bu'r awdurdod yn cynnal llyfrgell ers rhai blynyddoedd.

Yn dilyn broses ymgynhori 'Her Gwynedd' penderfynodd y Cyngor i gefnogi toriad o 25% ar y gyllideb prynu llyfrau o Ebrill 2016 ymlaen. Yn dilyn y penderfyniad hyn daeth yn gwbl amlwg nad oedd modd cynnal y rhwydwaith presennol o lyfrgelloedd na cheisio darpariaeth 'llyfrgell cymunedol' ym mhob cymuned ac felly bu angen diwygio ac addasu y Stragegaeth yn sgil hynny.

#### **4. Mae'r Strategaeth yn bwriadu cynnig budd i: -**

- Y cyfan sydd yn byw, gweithio, astudio ac yn ymweld â Gwynedd.
- Staff y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth.
- Yr Awdurdod Llyfrgell – sef Cyngor Gwynedd a'r aelodau etholedig.
- Adrannau eraill Cyngor Gwynedd e.e. Addysg; Oedolion, Iechyd a Lles; a rhannau eraill o'r Adran Economi a Chymuned (Gwasanaethau Celfyddydau, Archifau, Amgueddfeydd, Hamdden ac Ieuencid).
- Partneriaethau (e.e. Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru, Partneriaeth Addysg Gymunedol, Cynllun Gwybodaeth Iechyd a Lles)

#### **5. Y prif grwpiau ymgynghori / cymunedau o ddiddordeb o ran y Strategaeth yw:**

Ddefnyddwyr y Llyfrgell; Staff Llyfrgell; cymunedau gydag adeiladau llyfrgell a'r gymuned ehangach; Aelodau Etholedig; grwpiau cynrychioliadol nodwedd warchoddedig (Gweler Adran 2); Cynghorau Tref a Chymuned; Asiantaethau, gwasanaethau a sefydliadau mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio â hwy mewn partneriaeth (yn cynnwys gwasanaethau o fewn Cyngor Gwynedd, Awdurdodau Lleol cyfagos; sefydliadau addysg uwch a pellach; y Bwrdd Iechyd Lleol ac Isadran Llywodraeth Cymru ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd- MALD (sef 'CyMAL' hyd at Fehefin 2015).

#### **6. Prif nod yr Asesiad**

Nod yr asesiad cydraddoldeb hwn yw ceisio sicrhau fod y Strategaeth Llyfrgell yn gweddu a chyfrifoldebau'r awdurdod Llyfrgell (Gwynedd) i gyflawni ei dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sef :-

- Cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r un nodweddion a'r sawl sydd ddim
- Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu'r un nodweddion a'r sawl sydd ddim.

## **ADRAN 2 - Gwybodaeth cydraddoldeb a defnyddwyr y gwasanaeth.**

### **Perthnasedd y wybodaeth i'r Strategaeth â Grwpiau Gwarchoddedig**

#### **Hil**

Mae staff Llyfrgell yn ceisio sicrhau bod yr adnoddau a gynigir ar gyfer defnyddwyr mewn llyfrgelloedd yn cynnwys ystod amrywiol o ddeunydd darllen. Mae mynediad i'r rhyngwyd am ddim yn caniatáu defnyddwyr i gael mynediad at ystod eang o wybodaeth mewn ieithoedd eraill. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn derbyn ceisiadau am ddim am lyfrau mewn ieithoedd eraill o lyfrgelloedd eraill a chyflenwyr arbenigol gan gynnwys llyfrau gan awduron du a lleiafrifoedd ethnig ayb. Pan fydd angen mae staff y llyfrgell yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyfieithu a dehongli, a drefnwyd yn gorfforaethol, sydd ar gael yn ôl y galw o ddefnyddwyr. Mae poblogaeth lleiafrifoedd ethnig Gwynedd yn fwy tueddol o fyw yn y trefi ac felly'n llai tebygol o gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau. Nid yw'r Gwasanaeth yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar bobl o wahanol hil.

#### **Anabledd**

Mae gan 4.3% o boblogaeth Gwynedd salwch cyfyngol hirdymor, gall fod yn gysylltiedig ag anabledd. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mae hyn yn codi i 7.9% yn Nhalysarn (Dyffryn Nantlle) , 9.9% ym Mheblig (Caernarfon) a 9.5% ym Marchog (Bangor) - Cyfrifiad 2011).

Mae unrhyw faterion cyfredol am fynediad i rai o'r adeiladau Llyfrgell wedi eu nodi yn strategaeth rheoli asedau'r Cyngor. Mae'r materion mynediad hyn yn cynnwys diffyg drysau pŵer awtomatig mewn rhai adeiladau llyfrgell, drysau cul, nid yw pob adeilad gyda thoiledau cyhoeddus neu doiledau hygyrch ac nid oes bob amser ddigon o le troi i symud o gadeiriau olwyn / sgwteri symudedd. Nid oes chwaith byrddau a chownteri ar uchderau amrywiol gyda rhicyn all galluogi pobl mewn cadeiriau olwyn estyn llyfrau'n haws a siarad gyda staff. Bydd angen ystyried y materion hyn a'u hymgorffori gymaint â phosib pan fo unrhyw fath o gyfleuster llyfrgell yn cael ei ddatblygu o'r newydd gan gynnwys llyfrgelloedd sy'n cael eu cynnal gan gymunedau.

Mae gan rhai cymunedau ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gwael/cyfyngedig gyda newidiadau i deithiau bws neu amllder gwasanaethau wedi eu lleihau yn ddiweddar. Nid yw rhai trefi sydd â llyfrgelloedd llawn amser yn derbyn yr un gwasanaethau cludiant cyhoeddus ag oedden nhw ac mae cario llyfrau trwm ar fysiau neu drenau'n drafferthus iawn i bobl anabl. Gall teithio ymhellach at y llyfrgell agosaf gyfyngu ar amllder ymweliadau gan ddefnyddwyr anabl a nifer yr eitemau gallant eu benthyg.

Gall fod costau cludiant ychwanegol yn gysylltiedig â gorfod cael mynediad at wasanaethau ymhellach i ffwrdd.

Er bod mynediad i gadeiriau olwyn ar gael ar bob cerbyd llyfrgell deithiol, byddai defnyddwyr gyda chadeiriau trydan mwy o faint yn ei chael yn anodd mynd i mewn i'r llyfrgell deithiol gan fod yr arwynebedd llawr yn gyfyngedig.

Darperir ymweliadau misol Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref ar gais i'r rhai hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi a'u gofalwyr gyda detholiad o eitemau.

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn darparu technoleg gynorthwyol cyfrifiadurol megis monitorau sgrin fawr a desgiau mae modd addasu eu uchder, llygod 'trackball' sydd o fudd i bobl sy'n dioddef o anawsterau corfforol fel arthritis. Mae hefyd Allweddellau 'Big-Key' sydd yn cynnig botymau fwy na'r cyfartaledd ac yn llawer haws i'w gweld. Mae pob llyfrgell yn defnyddio'r system weithredu Windows 7 sydd yn cynnwys cyfleusterau hygyrchedd ac mewn tair llyfrgell defnyddir meddalwedd ZoomText. Nid oes offer lŵp ar gyfer y rhai hynny gydag anawsterau clyw.

Effeithiau posibl eraill o leihad yn nifer y manau gwasanaeth:

- Gall colli cyfleoedd i fynd o'u cartrefi, gael cysylltiad gyda phobl eraill ac i gymdeithasu achosi mwy o iselder ysbryd ac anhwylderau yn gysylltiedig gydag unigrwydd.
- Gall colli cyfleoedd i gael mynediad i gyfrifiaduron a'r we gyfyngu ar fynediad i wybodaeth, gwasanaethau ac i ymgymryd â gweithgareddau i ymestyn meddyliau megis drwy ymchwil.
- Gallai effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol a mynediad i wasanaethau cymorth penodol e.e. Llyfrau ar Bresgripsiwn, adnoddau i bobl â materion emosiynol neu seicolegol ysgafn i gymedrol.
- Colli cyfle i gyfeirio gwybodaeth am faterion meddygol, e.e. Canser a salwch tymor hir.
- Colli cyfle i gynnig deunydd hyrwyddo, gan gynnwys cyfeirio ymlaen i gyfleoedd addysg a darparwyr cyngor priodol e.e. Addysg Bellach, Cyngor Bopeth ayb.
- Colli mynediad i dechnoleg gyfrifiadurol a gynorthwyir a darpariaeth offer arbenigol.
- Risg uwch y bydd defnyddwyr yn colli adnoddau benthyca sydd i fod i gael eu dychwelyd, a chynnydd mewn taliadau am ddychwelyd yn hwyr neu beidio dychwelyd eitemau, hyn o ganlyniad i fwy o bellter i deithio i lyfrgell a llai o gyfleoedd i ddychwelyd adnoddau.

### **Rhyw / Rhyw**

Mae mwy o fenywod na dynion yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell - mae'r canfyddiad hwn yn dod o arolygon rheolaidd o ddefnyddwyr y llyfrgell a gynhelir gan y gwasanaeth llyfrgell yn unol â SLICC. Yn ôl arolwg diweddaraf PLUS (Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus, Hydref 2013) cafodd ei archwilio gan CIPFA, mae 64% o ddefnyddwyr llyfrgelloedd Gwynedd yn fenywaidd a 36% o ddefnyddwyr yn wrywaidd. Mae angen amlwg i hybu

defnydd o'r Gwasanaeth ymysg dynion - a thadau yn arbennig i gynnig patrwm ymddwyn i'w plant.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol mae'r bobl hynny sydd yn 65 neu'n hŷn ac sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn y DU yn fwy tebyg o fod yn fenywod (69%) ac mae'r gyfradd hyn yn codi i 76% wrth ystyried pobl sy'n 85 neu'n hŷn. Mae hyn yn debyg o fod o ganlyniad i'r ffaith bod menywod yn tueddu i fyw'n hirach na dynion. Mae Gwynedd ymysg yr awdurdodau lleol sydd â'r gyfradd uchaf o bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn y DU a gellid felly casglu bod cyfradd uchel o'r rhai hyn yn fenywod. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ardaloedd arfordirol lle mae poblogaethau uchel o bobl wedi ymddeol yn ogystal â chyfraddau uchel o ysgariadau.

Gyda llai o lyfrgelloedd mewn adeiladau bydd llai o gyfleoedd i bobl fynd o'r tŷ ac i gymdeithasu a bydd hyn yn effeithio mwy felly ar fenywod yn arbennig rhai mwy oedrannus.

### **Oedran**

Gyda 20.7% yn drigolion hŷn, mae gan Gyngor Gwynedd un o'r cyfrannau uchaf o'r boblogaeth ag oedran ymddeol yng Nghymru. O ganlyniad mae gan lawer o'r llyfrgelloedd broffil oed hŷn gyda'r rhai sydd yn Bermo, Porthmadog, Cricieth a *Harlech*, gyda rhwng 40% a 50% o'u defnyddwyr o oed 65 neu drosodd ac mae gan lyfrgelloedd Phyllheli, Tywyn a Nefyn rhwng 35% a 37% o'u defnyddwyr o'r un ystod oed.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn yn yr awdurdod yn cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf o ganlyniad i gynnydd disgwyliad oes a'r genhedlaeth 'ymchwydd babanod' yn cyrraedd oed ymddeol. O 2015 amcangyfrifir y bydd cynnydd yng Ngwynedd o 9% yn nifer y bobl dros 80 oed erbyn 2020 ac erbyn 2025 bydd cynnydd o 26% yn yr oedran hwn.

Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod un o bob pump o aelwydydd yn cael eu meddiannu gan bensiynwyr sengl, ond erbyn 2025 disgwyliar y bydd hyn yn cynyddu i un o bob pedwar cartref.

Effeithiau posibl o leihad yn nifer y manau gwasanaeth:

Byddai unrhyw leihad yn y nifer o lyfrgelloedd yn cael effaith sylweddol ar bobl hŷn.

- Gallai pobl hŷn golli rhai gwasanaethau e.e. y rhyngrwyd, mynediad at docynnau, cardiau rheilffordd / bws a gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ac eraill.
- Gall peidio â gadael eu cartrefi, gael cysylltiad gydag eraill a chymdeithasu arwain at sgil effeithiau teimlo'n ynysig ac yn unig all cynnwys iselder ymysg pobl hŷn a rhieni adre'n gofalu am fabanod a phlant.

- Gall peidio â chael mynediad i'r rhyngrwyd effeithio ar allu pobl hŷn i ymchwilio a chysylltu ag eraill dros y we sy'n cadw eu meddyliau'n brysur rhag iddynt ddatblygu dementia ac ati.
- Nid yw'n hawdd i bobl hŷn sy'n darllen cyflenwadau mawr o lyfrau gario llyfrau trwm ar gludiant cyhoeddus a gall lleihau'r nifer o adeiladau sydd â stoc sylweddol o lyfrau olygu bydd rhaid iddynt deithio at y llyfrgell agosaf.
- Byddai unrhyw leihad yn y nifer o lyfrgelloedd gael effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc. Gallant golli rhai gwasanaethau ee y rhyngrwyd / amser stori / gweithgareddau gwyliau / gwaith cartref a gwybodaeth am wasanaethau eraill a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ac eraill .
- Gall plant a phobl ifanc golli cyfleoedd i gymdeithasu a dysgu arferion a sgiliau cymdeithasu megis rhannu, rhoi a derbyn, trafod a dethol pe bae llai o lyfrgelloedd mewn adeiladau.
- Gall llai o gyfleoedd i'r to hŷn ac ifancach gymysgu mewn llyfrgelloedd arwain at fwy o rwygiadau cymdeithasol a diffyg dealltwriaeth rhwng cenedlaethau.
- Gall llai o gyfleoedd i gael cysylltiad gyda llyfrau i blant cyn oed ysgol ac o oed ysgol gael effaith negyddol ar lythrennedd a lefelau cyrhaeddiad addysgol.
- Gall plant teuluoedd difreintiedig ac ar incwm isel gael eu heffeithio'n fwy garw gan y lleihad mewn cyfleoedd i gael mynediad at lyfrau mewn adeiladau yn arbennig os ydynt o oed ysgol.
- Gyda'r lleihad yn y nifer o lyfrgelloedd mewn adeiladau gall plant oed ysgol golli hafanau 'diogel' yn ystod yr oriau ar ôl ysgol a chyn i rieni ddychwelyd o'u gwaith.

### **Crefydd a Chred**

Mae'r adnoddau a gynigir i ddefnyddwyr mewn llyfrgelloedd yn cynnwys awduron o gefndiroedd amrywiol iawn ac mae mynediad i'r Rhyngrwyd am ddim yn caniatáu defnyddwyr i gael mynediad at ystod eang o wybodaeth.

Nid yw'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol sy'n effeithio ar bobl o grefydd neu gredoau gwahanol.

### **Cyfeiriadedd Rhywiol**

Nid yw Gwasanaeth Llyfrgell yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol sy'n effeithio pobl yn wahanol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

### **Ail-aseinio Rhywedd**

Nid yw Gwasanaeth Llyfrgell yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol sy'n effeithio ar bobl oherwydd ail-aseinio rhywedd.

### **Iaith Gymraeg**

Mae ffigurau'r Cyfrifiad yn dangos bod tua 65% o boblogaeth Gwynedd, sy'n 3 oed neu'n hŷn, yn siaradwyr Cymraeg; yn sylweddol uwch na ffigwr Cymru gyfan o 20.5%. Mae'r canran sydd yn gallu *darllen*, ysgrifennu a siarad Cymraeg ychydig yn is, gyda 56% o boblogaeth Gwynedd yn datgan hynny.

Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai a anwyd yng Nghymru yn cynyddu mewn ardaloedd gwledig e.e. Llanrug 87.8%. Y gallu i siarad Cymraeg, fodd bynnag, ar ei uchaf yn nhref Caernarfon (87.4% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yng nghymunedau arfordirol Tywyn ac Aberdyfi (35.5%) a Bangor 36.4%. Erbyn 2011 roedd nifer o gymunedau a ystyrir yn gadarnleoedd i'r iaith wedi syrthio'n agos at y meincnod o 70% sef y lefel hyfyw pan fo'r iaith yn cael ei siarad bob dydd, er enghraifft Llanberis, Penisarwaun, Llanaelhaearn a Morfa Nefyn.

Dangosodd cyfrifiad 2011 hefyd leihad sylweddol yn y nifer o bobl dros 60 mlwydd oed all siarad Cymraeg sy'n cynnig tystiolaeth o dueddiad i bobl hŷn fewnfudo i'r sir. Rhwng 2001 a 2011 roedd yna gynnydd o + 13.9% o bobl dros 60 yng Ngwynedd. Mae'r canran o'r boblogaeth sydd yn datgan y gallu i ddarllen Cymraeg ar ei isaf ym Mangor (28%), Bermo (30%), Tywyn (29%) a Harlech (43%). Mae presenoldeb y Brifysgol ym Mangor yn ffactor mai'r canran isaf sydd yno ond mae'n effaith mewnfudo sydd yn gyfrifol am y canran isel yn y gweddill.

Mae llyfrgelloedd Gwynedd yn chwarae rôl hanfodol o ran codi ymwybyddiaeth o'r iaith, galluogi pobl i fynd yn gyfarwydd gyda hi a hyd yn oed i ddysgu'r iaith. Gan fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd drwy ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith, stocio ystod eang o ddeunyddiau iaith Gymraeg, cynnig cyngor i siaradwyr a dysgwyr a chreu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i bobl o bob gallu ieithyddol i ymarfer a siarad yr iaith mae'n chwarae rôl holl bwysig o ran hybu'r iaith.

Mewn nifer o gymunedau, caiff llyfrgelloedd llawn a rhan-amser eu hystyried yn 'hafan o Gymreictod', naill ai wedi'u hintegreiddio'n llawn yn iaith naturiol y gymuned fel ym Mhenygroes neu Fethesda, neu fel 'cadarnle' mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn llai amlwg, megis Tywyn. Mae amgylchedd drochi fel hyn yn helpu teuluoedd i annog plant i ddarllen a siarad Cymraeg; yn fwy cyffredinol, mae llyfrgelloedd sefydlog yn cynnig cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol rhwng y cenedlaethau sydd eto yn helpu i ddatblygu sgiliau iaith.

Os yw nifer y manau hyn yn lleihau gall gael effaith andwyol o ran cyflwyno mewnfudwyr i'r iaith, rhoi cyfleoedd i ddysgwyr siarad a darllen yr iaith neu ddarparu adnoddau i siaradwyr Cymraeg a theuluoedd Cymraeg eu hiaith, rhai ohonynt sydd ar incwm isel.



### **Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Gall lleihad yn y nifer o lyfrgelloedd mewn adeiladau arwain at lai o gyfleoedd i rieni sydd â phlant ifanc i adael eu cartrefi a hamddena mewn lleoedd diogel, cynnes, deniadol i blant ifainc gydag ystod eang o lyfrau ac sydd am ddim. Gall hyn effeithio ar les a chyflwr meddwl y rhieni a'r plant. Gall fod yn anodd mynd â bygis / cadeiriau gwthio i mewn ac o gwmpas y llyfrgell deithiol.

### **Priodas a Phartneriaeth Sifil**

Nid yw'r Gwasanaeth Llyfrgell yn credu y bydd pobl yn cael eu heffeithio yn wahanol oherwydd nodwedd warchoddedig hon

### **Ystyriaethau eraill os ddewisir opsiwn 'Llyfrgell Gymunedol': -**

Cyfle i hyrwyddo gwasanaethau gyda chymorth grwpiau cymunedol, i wirfoddoli ar gyfer gweithgareddau atodol neu i wneud cais am gyllid / menter gymdeithasol a allai dynnu sylw at anghenion penodol. Gallai hyn wella hyder a hunan-barch e.e. ar gyfer y rhai sy'n ddi-waith / heithrio. Mae'r ardaloedd canlynol fwyaf debygol o gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig hwn i'r ddarpariaeth lyfrgell: Llanllyfni, Clynnog, Talysarn sef cymunedau dalgylch Llyfrgell Penygroes sydd o fewn y 40% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar bob mynegai: incwm, tai, cyflogaeth, mynediad i wasanaethau, addysg, iechyd, diogelwch cymunedol, yr amgylchedd ffisegol.

### **Effeithiau posibl o leihad yn nifer y mannau gwasanaeth:**

Colli cyfleuster cymunedol lleol niwtral i ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u hallgáu h.y. pobl hyn

Amddifadedd daearyddol; colli mynediad at wasanaeth llyfrgell llawn i bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig Ngwynedd. Mae'r ardaloedd canlynol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig i'r ddarpariaeth lyfrgell: Deiniolen - sef cymuned sydd o fewn y 40% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Cynnigir sefydlu Dolenni Llyfrgell i gynnig mynediad sylfaenol at y gwasanaeth yn y cymunedau effeithir. Gall teithiau y Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol yn cael ei adolygu i gynnig gwsanaeth ble mae ei angen fwyaf.

### **Effaith posib y lleihad yn y cyfanrif oriau agor**

Amddifadedd daearyddol; lleihau cyfleoedd mynediad llyfrgell i bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, ee Ardaloedd Cymunedau yn 'Gyntaf; Peblig a Cadnant (Caernarfon) Marchog (Bangor) sef cymuned sydd o fewn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar bob mynegai.

## **7. Crynodeb o'r brif wybodaeth data, ymchwil a rheoli.**

### **DATA / GWYBODAETH**

#### **7.1 Trosolwg yr Awdurdod**

Mae Cyngor Gwynedd wedi ei leoli yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae gan y Cyngor arwynebedd o 253,498 hectar a phoblogaeth o 119,911 o drigolion (amcangyfrif 2013 Canol Blwyddyn). Mae ei heconomi yn dibynnu'n drwm ar ddiwydiant gwasanaethu, twristiaeth ac amaethyddiaeth. Mae ardaloedd gwledig yn arbennig yn dibynnu ar weithgareddau amaethyddol a thwristiaeth, er nad yw'r sectorau hyn yn darparu lefel uchel o gyflogaeth uniongyrchol.

Mae ardal ogleddol Gwynedd - Arfon- gyda dros 49% o boblogaeth y Cyngor gyda Bangor a Chaernarfon y ddau brif anheddiad o ran niferoedd poblogaeth. Mae gwledig Gwynedd yn amaethyddol yn bennaf gyda chyflogaeth amgen gyfyngedig ac ychydig o bwysau datblygu. Mae'r boblogaeth yn wasgaredig iawn a siarad Cymraeg. Y prif aneddiadau yn Nwyfor a Meirionnydd, o ran dalgychoedd poblogaeth, yw trefi marchnad Pwllheli, Dolgellau a threfi Blaenau Ffestiniog a Phorthmadog.

## 7.2 Darpariaeth Bresennol y Llyfrgell

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus wedi newid eu rôl, swyddogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau dros gyfnod hir ers eu sefydlu yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y ddarpariaeth gyhoeddus yn amrywiol - gyda'r Llyfrgelloedd 'Sir' (Sir Gaernarfon / Sir Feirionnydd), llyfrgelloedd bwrdeistrefol (ee Caernarfon, Bangor), llyfrgelloedd ardal ' trefol' (Cricieth) llyfrgelloedd 'Rhydd' (Dolgellau), llyfrgelloedd plwyf (Llanddeiniolen) ynghyd â llyfrgelloedd capeli, llyfrgelloedd cymdeithasau gweithwyr a rhai 'masnachol' 'llyfrgelloedd ceiniog' - hyd at ganol yr ugeinfed ganrif. Gosododd y Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 ddyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i redeg gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus am ddim gyda phwyslais arbennig ar lyfrau. Awdurdododd y Ddeddf ymdrechion i resymoli'r ddarpariaeth dameidiog oedd wedi bodoli o'r blaen. Dehonglwyd eu dyletswydd gan bob Awdurdod yn wahanol a gynhaliwyd llyfrgelloedd mewn trefi a phentrefi, hyd yn oed mewn rhai achosion mewn pentrefi bychain fel arfer lle bu llyfrgell blwyf (ee Deiniolen). Mae'r gwahanol bolisiau, yn y rhannau hyn sydd bellach o fewn ardal Cyngor Gwynedd, wedi arwain at yr anghysondeb y gellir eu gweld yn y lleoliad, maint a gwasanaethau a gynigir gan y ddarpariaeth llyfrgell ar hyn o bryd.

Mae llyfrgelloedd bob amser wedi rhoi pwyslais ar ddarparu llyfrau am ddim i oedolion a phlant ar gyfer dysgu, gwybodaeth a hamdden. Mae'r gwasanaeth wedi ei addasu dros y blynyddoedd gyda datblygiad fformatau newydd a ffyrdd newydd o ddysgu, technolegau newydd ac anghenion cymunedol gan gynnwys darparu Technoleg Gwybodaeth ar gyfer defnydd y cyhoedd.

Yn 2015-16 derbyniodd llyfrgelloedd Gwynedd dros 525,000 o ymweliadau corfforol, benthycwyd dros 570,000 o lyfrau a darparwyd dros 90,000 oriau o fynediad i'r rhyngrwyd drwy'r cyfrifiaduron cyhoeddus a mynediad Wi-Fi.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy ddau ar bymtheg o llyfrgelloedd, tri cherbyd cymunedol a llyfrgell i'r cartref ar y cyd, a 'Lori Ni' (y llyfrgell deithiol a gwybodaeth i blant, pobl ifanc, ysgolion a theuluoedd). Mae lefel y ddarpariaeth o gyfleusterau a

gwasanaethau o fewn y llyfrgelloedd sefydlog yn wahanol o ganlyniad i gyfyngiadau adeiladau ac ariannol. Mae'r ddarpariaeth drwy'r gwasanaethau symudol wedi'i gyfyngu oherwydd maint y cerbyd y gellir eu defnyddio yng nghefn gwlad Gwynedd a'r diffyg cyswllt ar gyfer mynediad i'r Rhyngwyd.

### **Prif Lyfrgelloedd (Ar agor dros Ugain awr neu fwy yr wythnos):**

Bangor, Caernarfon,  
Pwllheli, Porthmadog,  
Blaenau Ffestiniog, Abermaw, Bala\*, Dolgellau, Tywyn

(\*mae Llyfrgell Bala hefyd yn gweithredu fel Llyfrgell ysgol ac felly  
Yn cael ei ddefnyddio dros ugain yr wythnos )

### **Llyfrgelloedd Rhan amser (Agor Ugain Awr neu lai yr wythnos)**

Bethesda, Deiniolen, Llanberis, Penygroes,  
Nefyn, Criccieth, Penrhyndeudraeth, Harlech

Rhwng 2012/14, cynhaliodd Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd adolygiad o'r Gwasanaeth drwy ymgynghori eang gyda defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr. Mae canlyniadau'r adolygiad ynghyd â gofynion y Llyfrgelloedd Safonau Cyhoeddus Cymru (SLICC), yw'r elfennau allweddol sylfaen y Strategaeth y Llyfrgell. Nid yw cadw'r gwasanaeth llyfrgell yn ei ffurf bresennol yn gynaliadwy heb gynnal a chynyddu'r buddsoddiad yn y ddarpariaeth.

Comisiynwyd cwmni annibynnol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn a syniadau trigolion, defnyddwyr a phartneriaid ar gynnwys y strategaeth honno, sef "Mwy na Llyfrau" yn ystod Mai - Gorffennaf 2015. Cafwyd ystod o argymhellion yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd yn tynnu ynghyd yr adborth a gasglwyd gan y cyhoedd a'n partneriaid a chyflwynwyd hwy i'r Gwasanaeth Llyfrgell ym mis Medi 2015.

Nododd yr adroddiad hefyd fod angen addasu'r weledigaeth a chryfhau rhai o'r blaenoriaethau. Cadarnhawyd nad oedd parhau gyda'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy, ond fod amharodrwydd cyffredinol ymysg y cyhoedd i weld unrhyw newid i'r rhwydwaith o lyfrgelloedd, hyd yn oed mewn cyd-destun ariannol heriol. Un o argymhellion yr ymgynghorwyr oedd y dylid, yn ogystal â chynnal naw prif lyfrgell, ystyried cynnig "sefydlu llyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad yr awdurdod" yn yr wyth lleoliad sydd gyda llyfrgell ar agor am lai nag 20 awr.

Cyflwynwyd adroddiad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiad effaith cydraddoldeb i Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 3ydd o Dachwedd 2015. Penderfynodd y Cabinet i ohirio'r "penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd". Roedd y Cabinet o'r farn fod angen ystyried canlyniadau Her Gwynedd a blaenoriaethau pobl

Cyflwynwyd adroddiad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiad effaith cydraddoldeb i Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 3ydd o Dachwedd 2015. Penderfynodd y Cabinet i ohirio'r "penderfyniad terfynol ar Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd tan ar ôl Her Gwynedd". Roedd y Cabinet o'r farn fod angen ystyried canlyniadau Her Gwynedd a blaenoriaethau pobl Gwynedd cyn penderfynu symud ymlaen gyda datblygu Strategaeth "Mwy na Llyfrau".

Rhwng Medi a Rhagfyr 2015, dechreuodd y Cyngor ar y broses o adnabod toriadau posib i wasanaethau drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd' ledled yr awdurdod. Yn dilyn penderfyniad Cabinet (16 Chwefror 2016) penderfynodd y Cyngor Llawn o aelodau (3 Mawrth 2016) i gefnogi toriad o 25% (£65,000) ar y gyllideb prynu llyfrau o Ebrill 2016 ymlaen.

Penderfynodd y Cyngor Llawn na ddylai'r Gwasanaeth Llyfrgell wynebu toriad uwchlaw'r targed arbedion effeithiolrwydd i'w chyllideb. Fel mae strategaeth ariannol y Cyngor yn nodi mae disgwyl fod gan y gwasanaeth gynllun effeithlonrwydd i sicrhau arbedion o £101,370, drwy adolygu'r ddarpariaeth llyfrgelloedd yn yr awdurdod. Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad Her Gwynedd yn cadarnhau eu bod yn fodlon gweld newid i'r rhwydwaith o adeiladau llyfrgell ond nid oeddent yn dymuno i weld yr awdurdod yn mynd ymhellach. Nodwyd y dylai'r Gwasanaeth ystyried, wrth ddatblygu'r cynllun darparu, pa mor anodd yw hi i ardaloedd gwledig ddarganfod gwirfoddolwyr a hefyd ystyried effaith ar y gwahanol grwpiau oedran fel sydd wedi ei adnabod yn yr asesiad cydraddoldeb.

Roedd yr ymatebion i Her Gwynedd hefyd wedi dangos cefnogaeth i warchod y gwasanaeth teithiol yn arbennig i bobl hyn a phlant .

Gyda llai o gyllideb ar gael ar gyfer cynnal y gwasanaeth ac ar gyfer prynu llyfrau (drwy'r gyfundrefn arbedion a thoriadau Her Gwynedd) nid oes modd cynnal y rhwydwaith presennol o lyfrgelloedd; na cheisio cynnig trefniant llyfrgell gymunedol i bob un o'r wyth cymuned fel y nodwyd fel argymhelliad gan yr ymgynghorwyr ym mis Medi 2015.

Yn sgil penderfyniadau ynghylch cyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd a'r adborth ddaeth drwy'r broses ymgynghori cyhoeddus ar "Mwy Na Llyfrau" a Her Gwynedd; ynghyd a chasgliadau'r asesiad effaith cydraddoldeb mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi diwygio ac addasu'r strategaeth.

### **7.3 YMCHWIL NEU WYBODAETH GYM HAROL**

#### **Gofalwyr**

Mae'r gyfran uchel o drigolion oedrannus yn golygu fod gan yr awdurdod un o'r cymarebau dibyniaeth uchaf yng Nghymru. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae dros 7266 o bobl Gwynedd yn darparu gofal di-dâl ac mae bron i hanner y gofalwyr hyn (mwy na 3400 o bobl) yn darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos. Mae lefelau mor uchel o ddarpariaeth gofal di-dâl yn cael effaith enfawr yn

economaidd a chymdeithasol ar les y gofalwyr yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gofal.

### **Byw mewn unigedd**

